Y Comisiwn Etholiadol

Etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 6 o 6 - Ar ôl datgan y canlyniad

Mawrth 2019

Dim ond i etholiad Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr ar 23 Mai 2019 y mae'r ddogfen hon yn berthnasol. Gellir dod o hyd i'n canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill ar ein gwefan: http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/candidate-or-agent.

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 2
Datganiad derbyn swydd 2
Dychwelyd ernes 3
Herio canlyniad yr etholiad 3
Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur etholiadol ar ôl cyhoeddi'r canlyniad? 3
Cyflwyno eich cofnodion gwariant etholiadol 4
Gwybodaeth atodol 5
Herio'r etholiad 5
Cofnodi deiseb etholiadol 5
Penderfyniad barnwrol o waharddiad 6
Archwilio a chyflenwi dogfennau perthynol i etholiad 7
Cyflenwi ac archwilio'r cofrestrau wedi'i marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol 8
Archwilio dogfennau etholiadol eraill 9
Cofnodion gwariant etholiadol ymgeiswyr 10

2

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar beth sy'n digwydd wedi i ganlyniad etholiad Senedd Ewrop gael ei gyhoeddi. Mae gwybodaeth atodol, fydd yn berthnasol i rai ymgeiswyr yn unig, ar gefn y ddogfen hon. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni o fewn y ddogfen hon, neu drwy glicio ar y bennod yn y dudalen gynnwys.

Rydym ni yma i help, felly cysylltwch â'ch swyddfa leol y Comisiwn os oes gennych unrhyw gwesitynau. Gweler ein

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd (unigolyn neu ar restr plaid). Rydym yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'dylech' ar gyfer arfer a argymhellir.

Rydym wedi cynnwys y dyddiadau cau perthnasol drwy gydol y ddogfen, ond gallwch ddod o hyd i amserlen etholiad ar ein gwefan

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Datganiad derbyn swydd

1.1 Os cewch eich ethol, gallwch gymryd eich sedd fel Aelod o Senedd Ewrop (ASE) o gychwyn y sesiwn gyntaf y Senedd sy'n dilyn yr etholiad. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi wneud datganiad ysgrifenedig cyn i chi gymryd eich sedd nad oes gennych unrhyw swydd sy'n anghymharus gyda bod yn ASE. Mae'n rhaid i chi wneud y penderfyniad hwn, lle bo'n bosibl, heb fod yn hwyrach na chwe diwrnod cyn cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl yr etholiad.

1.2 Os ydych wedi gwneud eich datganiad wedi'i lofnodi, ond ei fod yn destun gwirio neu anghydfod, gallwch gymryd eich sedd hyd nes ei fod wedi'i ddatrys.

1.3 Os darganfyddir fod gennych swydd sy'n anghymharus gyda bod yn ASE, bydd eich sedd yn cael ei datgan yn wag.

Dychwelyd ernes

1.4 Bydd unrhyw unigolyn neu blaid gofrestredig sydd â mwy na 2.5% o'r cyfanswm o bleidleisiau dilys a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol yn cael eu hernes yn ôl. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn dychwelyd yr ernes i'r person a'i gwnaeth (neu eu cynrychiolydd personol), erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan y canlyniad. Pe bai'r person wnaeth gyflwyno'r ernes gael ei ddychwelyd i'w cynrychiolydd personol, dylent roi manylion y cynrychiolydd i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Herio canlyniad yr etholiad

1.5 Gellir herio canlyniad etholiad Senedd Ewrop drwy ddeiseb etholiadol. Mae proses wahanol i wneud heriad yn gysylltiedig â hawl yr ymgeisydd llwyddiannus i fod yn Aelod o Senedd Ewrop oherwydd eu bod wedi'u gwahardd. I gael rhagor o fanylion ar y prosesau hyn, gweler paragraffau **1.11** i **1.22**.

Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur etholiadol ar ôl cyhoeddi'r canlyniad?

1.6 Cedwir holl ddogfennau etholiadol am un flwyddyn gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol (y Swyddog Canlyniadau Lleol yn yr Alban) ac mae'r mwyafrif ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Nodwch nad yw papurau pleidleisio ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Os hoffech archwilio dogfennau etholiadol, gweler paragraff **1.23** i gael rhagor o wybodaeth.

4

Cyflwyno eich cofnodion gwariant etholiadol

1.7 Bydd angen asiant etholiadol ymgeisydd unigol baratoi a chyflwyno cofnod gwariant etholiadol ar gyfer treuliau etholiadol o fewn 50 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi canlyniad yr etholiad. Hefyd, bydd angen i chi a'ch asiant etholiadol lofnodi datganiad yn nodi bod y cofnod yn gyflawn a chywir hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred.

1.8 Mae canllawiau manwl ar ddyddiadau a chwblhau a chyflwyno eich cofnod gwariant yn Rhan 3 - Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr ac asiantiaid.

1.9 Mae'n rhaid i ymgeiswyr rhestr plaid baratoi a chyflwyno cofnod gwariant etholiadol ar gyfer eu treuliau personol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o fewn 50 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddir y canlyniad.

1.10 Mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol baratoi a chyflwyno cofnodion gwariant etholiadol. Mae'n rhaid gwneud hyn o fewn tri mis o ddyddiad y bleidlais lle mae pleidiau yn gwario £250,000 neu lai, neu o fewn chwe mis o ddyddiad y bleidlais lle mae pleidiau yn gwario mwy na £250,000. Mae canllawiau i bleidiau ar gael ar ein gwefan.

Gwybodaeth atodol

Herio'r etholiad

Cofnodi deiseb etholiadol

1.11 Dim ond rhai pobl all gofnodi deiseb etholiadol, a dim ond o dan amgylchiadau penodol.

1.12 Gall y bobl ganlynol gyflwyno deiseb etholiadol:

- rhywun sy'n hawlio eu bod wedi bod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- rhywun sy'n hawlio fod hawl ganddynt gael eu hethol neu eu datgan yn yr etholiad, neu
- etholwyr (dim etholwr wedi'i gofrestru'n ddienw) oedd â hawl pleidleisio yn yr etholiad (nodwch nad oes angen ei bod wedi pleidleisio)

1.13 Y seiliau a ganiateir ar gyfer deiseb yw:

- nad etholwyd ymgeisydd llwyddiannus yn briodol
- na chafodd y canlyniadau eu datgan yn briodol
- di-rymwyd yr etholiad gan yr arferion llwgr neu anghyfreithlon canlynol:
    - personadu: pan fod unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (p'un a bod y person yn fyw neu'n farw neu'n berson ffug)
    - troseddau pleidleisio eraill: pleidleisio neu fod yn ddirprwy tra wedi'ch gwahardd neu fod yn ddirprwy

ar gyfer mwy na dau berson nad ydynt yn berthnasau agos; pleidleisio ddwywaith yn yr un etholiad; neu benodi dau ddirprwy ar gyfer yr un etholiad gan wybod hynny

1.14 Ni ellir cyflwyno deiseb ar sail bod ymgeisydd wedi'i wahardd rhag sefyll. Mae proses farnwrol ar wahân ar gyfer herio etholiad ASE ar sail eu bod wedi'u gwahardd (gweler paragraff **1.20**).

1.15 Fel arfer rhaid cyflwyno deiseb o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cyhoeddwyd canlyniad yr etholiad. Fodd bynnag, os yw'r ddeiseb yn cwyno am arferion llwgr neu anghyfreithlon o ran talu arian neu wobr arall, neu arferion anghyfreithlon yn ymwneud â gwariant etholiadol, gellir caniatau mwy o amser.

1.16 Os oes gennych gwestiynau yn gysylltiedig â deisebau etholiadol, gan gynnwys cadarnhau'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno deiseb etholiadol dylech gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol:

1.17 Yng Nghymru a Lloegr dylech gysylltu â:

Swyddfa Deisebau Etholiadol
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL

E-bost: election_petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7947 6687/6926
Ffacs: 0870 324 0024

1.18 Mae costau yn gysylltiedig â deiseb etholiadol. Os ydych yn ystyried cyflwyno deiseb etholiadol, rydym yn argymell yn gryf i chi gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Penderfyniad barnwrol o waharddiad

1.19 Gall unrhyw berson wneud cais i'r llys priodol i gael datganiad bod ASE wedi ei wahardd rhag bod yn Aelod o

Senedd Ewrop yn unol ag Adran 10 Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002.

1.20 Yng Nghymru a Lloegr, y llys priodol yw'r Uchel Lys. Yn yr Alban, Llys y Sesiwn yw'r llys priodol.

1.21 Mae costau ynghlwm â gwneud cais am ddatganiad barnwrol o waharddiad. Os ydych yn ystyried gwneud un, rydym yn argymell yn gryf i chi gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Archwilio a chyflenwi dogfennau perthynol i etholiad

1.22 Gall y Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol perthnasol, neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn yr Alban, ddarparu'r dogfennau sydd ar gael i'w cyflenwi a'u harchwilio, heblaw am gofnodion gwariant etholiadol, a gedwir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.23 Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn cadw'r dogfennau etholiadol sy'n berthnasol i'w hardal. Gellir dod o hyd i fanylion Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn www.dybleidlaisdi.co.uk. Mae manylion cyswllt Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gael ar ein gwefan.

8

Cyflenwi ac archwilio'r cofrestrau wedi'i marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.24 Mae'r cofrestrau etholiadol wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol yn dangos pwy sydd wedi derbyn papur pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio a thrwy'r post, pwy sydd wedi'u dychwelyd eu papur pleidleisio post a phwy sydd wedi cael pleidlais wedi'i bwrw ar eu rhan.

1.25 Gall ymgeiswyr unigol ac asiant etholiadol plaid oess yn sefyll yn yr etholiad archwilio neu gael copïau o'r gofrestr o etholwyr wedi'i marcio a'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar ôl yr etholiad. Mae'n rhaid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol (neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn yr Alban).

1.26 Dim ond at ddibenion ymchwil neu etholiadol y gellir defnyddio'r wybodaeth a geir o'r dogfennau hyn.

1.27 Mae'n rhaid i gais i'w harchwilio nodi:

- a dogfennau y gofynnir amdanynt
- y dibenion y defnyddir y wybodaeth mewn unrhyw ddogfen ar eu cyfer
- lle mae'r cais i archwilio'r gofrestr neu restrau wedi'i marcio, unrhyw reswm pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio yn ddigonol i gyflawni'r diben hwnnw
- pwy fydd yn archwilio'r dogfennau
- y dyddiad yr hoffai'r sawl sy'n gwneud cais archwilio'r dogfennau, a
- p'un a byddai'n well gan y sawl sy'n gwneud cais archwilio'r dogfennau mewn ffurf argraffedig neu ar ffurf data

1.28 Bydd archwilio yn cael ei oruchwylio a bydd am ddim. Ni fyddwch yn gallu cymryd copïau, ond caiff unrhyw un sy'n archwilio'r dogfennau wneud nodiadau â llaw.

1.29 Mae'n rhaid i gais i gyflenwi nodi:

- pa rai o'r cofrestrau wedi marcio neu restrau y gwneir cais amdanynt
- p'un a y gofynnir am gopi argraffedig o'r cofnodion neu'r rhestrau neu gopïo ar ffurf data
- y dibenion y bydd y gofrestr wedi'i marcio neu'r rhestrau yn cael eu defnyddio a pham na fyddai cyflenwi neu brynu copi o'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio yn ddigonol i fodloni'r dibenion hynny

1.30 Bydd y ddogfen a geisir yn cael ei chyflenwi am ffi o £10 yn ogystal â £2 ar gyfer fersiynau wedi'u hargraffu a £1 ar gyfer fersiynau data am bob 1,000 o gofnodion.

1.31 Noder, y bydd y dogfennau hyn yn cael eu dinistrio ar ôl 12 mis, heblaw bod gorchymyn llys yn cyfarwyddo fel arall.

1.32 Yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ni fydd data personol a brosesi at unrhyw ddiben yn cael ei gadw'n hirach nag sy'n hanfodol ar gyfer y diben hwnnw. Os gofynnwch am, a'ch bod yn cael y wybodaeth a restrir uchod, unwaith bod y pwrpas ar gyfer casglu'n data wedi mynd heibio, mae angen i chi ystyried os oes rheswm i chi gadw'r data yna. Os nad oes rheswm, dylech sicrhau eich bod yn dinistrio unrhyw ddata sydd gyda chi.

Ni ellir archwilio papurau enwebu ar ôl 5pm ar ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

Bydd y dyddiad cau ar gyfer archwilio a gwrthwynebu papurau enwebu yn amrywio yn dibynnu pryd y darparwyd y papurau enwebu. Gweler ein Rhan 2a – Sefyll fel ymgeisydd annibynnol a Rhan 2b – Sefyll fel ymgeisydd plaid am fwy o wybodaeth.

Archwilio dogfennau etholiadol eraill

1.33 Gallwch archwilio dogfennau etholiadol eraill, ond ni fyddwch yn cael gwneud unrhyw nodiadau na chymryd copïau o'r dogfennau hyn. Yr unig ddogfennau na ellir eu harchwilio yw:

- y papurau pleidleisio
- y rhestrau rhifau cyfatebol
- y tystysgrifau sy'n caniatáu i staff gorsaf bleidleisio a swyddogion yr heddlu i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi.

1.34 Noder, y bydd holl ddogfennau etholiadol yn cael eu dinistrio ar ôl 12 mis, heblaw bod gorchymyn llys yn cyfarwyddo fel arall.

Archwilio cofnodion gwariant etholiadol ymgeiswyr

1.35 Gellir archwilio cofnodion gwariatn ymgeiswyr gan unrhyw berson ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Gellir hefyd gofyn am gopïau.

1.36 Cedwir cofnodion gwariant am un flwyddyn gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Gallwch ofyn iddynt gael eu dychwelyd atoch neu'ch asiant ar ddiwedd y cyfnod hwn. Os nad ydych chi neu'ch asiant am eu cael yn ôl, byddant yn cael eu dinistrio.